

ECEY6009-Arweinyddiaeth Catalytig- hawliau, gwydnwch a newid cymdeithasol

Bydd pwysigrwydd arweinydd gatalytig yn cael ei thrafod yn ystod y bortffolio hyn gyda ffocws ar bwysigrwydd arweinyddiaeth catalytig yn ystod y blynyddoedd cynnar, a sut mae lleoliadau blynyddoedd cynnar yn gallu cefnogi materion cymdeithasegol sydd yn cael effaith ar fywydau plant bach. Ar ôl trafod yr uchod, fe fydd astudiaeth manwl o'r gwaith y mae'r comisiynwr cymru a'r gwaith y maent wedi'i wneud i roi plant yr hawliau sydd ganddynt nawr. Yn olaf, fe fydd trafodaeth dwfn ar un mater cymdeithasegol sydd yn effeithio ar fywydau plant yn y blynyddoedd cynnar a'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi'r mater cymdeithasegol.

Adran 1

Yn ôl Nicholson *et al* (2020), mae'r ffordd traddodiadol o ddiffinio arweinyddiaeth yw person sydd yn cael pwer dros pobl eraill fel pennaeth ysgol. Mae ganddynt yr hawl i wneud penderfyniadau a maent yn ffocysu ar berfformiad yr unigol. Mae Robbins (dim dyddiad) a McDowall Clark (2012) yn cytuno gyda hyn. Mae'r Children's Workforce Development Council (CWDC, 2010) yn dweud bod fel rhan o'r Early Years Professional Status, bydd yr ymarferydd yn arwain y lleoliad gwaith ac yn ysbrydoli eraill o'i chwmpas. Mae hyn yn ymddangosfel problem i rai gan ei bod nad ydynt yn teimlo'n hyderus i arwain oherwydd nad ydynt yn teimlo fel ei bod mewn safle o awdurdod. Mae hyn yn broblem oherwydd y rhagdybiaethau sydd yn dod o fod yn arweinydd cryf. Er mwyn symud ymlaen gyda'r syniad yma, mae rhaid cefnogi'r ymarferydd a hybu nhw i ymuno mewn myfyrddod beirniadol a hefyd trwy holi eu beirniadau a ei rhagdybiaethau (Clark, 2012). Mae hyn yn golygu dylai pob ymarferydd anelu at fod yn arweinwyr a does dim ots am ei gymhwyster neu beth yw statws yr unigolyn. Mae Reed a Canning, (2012) yn dweud nad yw arweinyddiaeth catalytig yn dod o'r blaen neu o'r uwchlaw, ond y mae hi yn dod o bob man neu o unman. Mae arweinyddiaeth catalytig yn cael ei ddiffinio gan Toomer *et al.* (2018) fel gwella gallu pobl eraill o fewn y tîm er mwyn cael canlyniadau gwell. Yn gyffredinol, dylai'r proses yma ddim fod yn hunanol, ond dylai'r proses fod yn ddangos eich bod yn chwaraewr tîm.

Mae Early years (34:06, ish) yn dweud bod rhaid i ni gweithredu yn radical er mwyn creu system wirioneddol deg i bawb. Mae arweinyddiaeth yn bwysig i unrhyw sefydliad dywed Caston a Dicarlo, (2021, p.1) gan ei bod yn aml yn gosod y dôn i lawer o sefydliadau. Gan bod arweinyddiaeth yn wahanol mewn gofal plant i gymharu a sefydliad arall, mae ymchwil blaenorol yn dangos bod rhaid cael sgiliau, nodweddion yn gyffredinol ond hefyd nodweddion o arweinyddiaeth effeithiol. Yn ôl Whalley, (2011) mae tystiolaeth ar gael am arweinyddiaeth, a'r tystiolaeth yw sut y mae unigolyn yn gweithio gyda plant, rhieni a gofalwyr, pa mor dda y mae unigolyn yn gweithio o fewn a gyda cydweithwyr, ond hefyd y sut mae unigolyn yn gweithio gyda pobl proffesiynol.

Er bod fod yn arweinydd catalytig yn syniad da gan ei bod yn dangos eich bod yn chwaraewr tîm ac yn hyderus, mae yna broblemau sydd yn gallu ymddangos o fod yn arweinydd catalytig. Dywed Allen *et al.*, 2017; Allen a McInerney, 2019) bod

llawer o athrawon wedi dweud ei bod yn cael trafferth i gydbwyso bywyd a gwaith a hefyd yn dweud bod dim digon o amser ganddynt i baratoi ar gyfer myfyrwyr anghenion uchel. Roedd athrawon hefyd yn esbonio ei bod wedi cael profiad o hiliaeth neu homoffobia (Allen *et al.*, 2017; Tereschenko *et al.*, 2021). Mae Ball, (2003) yn awgrymu bod rhaid i athrawon neilltuo unrhyw ymrwymadau er mwyn cyrraedd targedau, dangosyddion perfformiad ac i osgoi unrhyw craffu diangen.

Mae Hadfield, Jopling a Needham (2015) yn credu bod arweinyddiaeth o fewn y blynyddoedd cynnar oherwydd polisi oedd wedi eu chreu er mwyn gwella ansawdd cyffredinol y darpariaeth ond hefyd yr ymchwil ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth a geisiodd cysylltu gweithgareddau yr arweinwyr gyda gwella canlyniadau'r blant. Er bod hyn yn farn am sut dechreuodd arweinyddiaeth yn y blynyddoedd cynnar, mae yn bwysig i ddweud eu bod wedi dechrau oherwydd gofidiau o bobl proffesiynol sydd wedi codi oherwydd yr ymarferwyr o fewn y blynyddoedd cynnar yn cymryd swyddi arweinyddiaeth.

Mae yna yn anffodus ffactorau cymdeithasegol sydd yn effeithio ar fywydau plant bach. Mae LMS Hero, (dim dyddiad) yn disgrifio ffactorau cymdeithasegol fel strwythur, systemau neu ymddygiad sydd yn effeithio yr cymdeithas. Mae hyn hefyd yn cael effaith ar sut y mae pobl yn meddwl, credu ac yn ymddwyn. Mae yna dau categori o ffactorau cymdeithasegol sef mewnol ac allanol. Enghraifft o ffactor allanol yw yr amgylchedd lle maent yn byw tra bod ffactorau mewnol yn cynnwys pethau fel agweddau sydd wedi'i ymddangos trwy profiadau. Mae tlodi yn enghraifft o ffactor cymdeithasegol ac yn ôl y BBC (dim dyddiad) does dim diffiniad penodol gyda tlodi ond mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cymryd 60% o bobl sydd yn ennill incwm gradd canolig, ac un rhywun sydd yn ennill o dan hyn yn mewn tlodi.

Mae rhaid i ymarferwyr blynyddoedd cynnar a hefyd arweinydd catalytig cefnogi plant sydd yn dioddef o ffactorau cymdeithasegol. Gallent cefnogi plant trwy cynnig hybiau teuluol sydd yn rhoi cefnogaeth a wybodaeth am sut i magu ei blant (Government, 2023). Mae Dechrau'n Deg yn math arall o gefnogi plant sydd yn dioddef o ffactorau cymdeithasegol. Mae Dechrau'n Deg yn darparu cefnogaeth gyda magu plant neu os oes angen unrhyw cymorth trwy beichiogrwydd tan bod y plentyn bron yn bedwar mlwydd oed. Mae'r gwasanaeth yma wedi'i wneud i fyny o wasanaethau gwahanol gan cynnwys ymwelydd iechyd, therapydd iaith a lleferydd a hefyd yr ymarferwyr sydd yn gweithio mewn lleoliadau sydd yn cynnal Dechrau'n Deg (Flying Start, dim dyddiad). Mae hi hefyd yn bwysig bod hawliau plant yn cael ei dilyn er mwyn cefnogi plant trwy amseroedd caled gyda'i ffactorau cymdeithasegol. Mae'r United Convention of the Rights of the Child (UNCRC) yn dweud bod pob plentyn yn cael yr hawl i fyw a datblygu yn y ffordd gorau (Erthygl 6). Maent hefyd yn dweud bod gan pawb yr hawl i gael dwr yfed glan, ac amgylchedd sydd yn glan ac yn ddiogel (Erthygl 24).

Mae Cyngor Gofal Cymru (2016) yn dweud bod ymarferwyr yn cael ei annog i ymgymryd mewn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) er mwyn gwella sgiliau'r ymarferwyr ond hefyd i wella safonau lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae rhaid i leoliadau blynyddoedd cynnar darparu hyfforddiant mewn meysydd penodol fel cymorth cyntaf a iechyd a diogelwch yn ôl Adran Addysg (2018). Mae cynnig DPP yn

syniad da ond mae yna rhwystrau sydd yn atal hyn rhag digwydd. Mae diffyg amser a diffyg cyllid yn lleihau'r cyfleoedd o'r datblygiad sgiliau (Croner-i, 2020). Bydd hyfforddiant cyson yn galluogi ymarferwyr i gael rhyw fath o syniad am wahanol sefyllfaoedd er mwyn gallu helpu plant sydd efallai yn y sefyllfa yna. Mae'r BBC (2019) yn dweud bod cael ymarferwyr sydd wedi'i hyfforddi yn iawn ac yn gyson yn gwella safonau addysg a gofal plant bach. Mae'r BBC (2019) hefyd yn dweud bod trwy hyfforddi ymarferwyr, maent yn dod yn fwy hyderus ac yn fwy debygol o'r ymarferwyr dod yn arweinwyr catalytig.

Yn ôl Cooperrider (2022) mae unrhywun yn gallu bod yn arweinydd catalytig a nid oes angen i bobl food mewn swyddi gyda awdurdod er mwyn galluogi newid neu gwelliannau penodol. Mae Cooperrider (2022) hefyd yn dweud dylai pawb croesawu newidiadau a mae rhaid i bobl dechrau sylweddoli bod hyn yn nodwedd cyffredinol o fewn arweinydd catalytig.

Mae fod yn arweinydd catalytig o fudd i blant o fewn y blynyddoedd cynnar ac yn cefnogi hyn yw'r Canolfan Plant a Theuluoedd Pen Green (2022) gan ei bod yn cefnogi teuluoedd gan darparu nhw gyda llawer o opsiynau. Maent hefyd yn darparu rhywbeth o'r enw asesu cymorth cynnar sydd yn helpu ffeindio ffyrdd gwahanol o gefnogi teuluoedd sydd efallai yn wynebu heriau. Mae ymarferwyr sydd yn ymddangos fel arweinydd catalytig yn gallu cyfeirio teuluoedd at grwpiau cymorth lleol sydd yn gallu cynnig cymorth ychwanegol os oes angen.

Adran 2

Mae Comisiynydd plant wedi digwydd ar ôl i lawer o bethau sydd wedi digwydd a chafodd effaith ar fywydau plant bach. Mae pethau fel Y Rhyfelau'r byd a'r deddf addysg wedi cael effaith mawr ar blant o fewn y blynyddoedd cynnar. Mae'r sefydliad Achub y plant hefyd wedi cael effaith mawr ar fywydau plant bach a sefydlwyd hyn gan Eglantyne Jebb a hefyd ysgrifennodd y drafft cyntaf o hawliau plant sydd nawr yn cael ei adnabod fel y UNCRC. Y UNCRC oedd y tro cyntaf erioed i hawliau plant cael ei sefydlu o fewn gyfraith rhyngwladol. Prif nod y comisiynydd plab o fewn Cymru yw i ddiogelu a hyrwyddo lles a hawliau plant ond hefyd i sicrhau bod polisïau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn fuddiol i blant a bobl ifanc.

Yn ôl y Deddf Safonau Gofal (2000) mae gan y Comisiynydd Plant y pŵer i edrych ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn arfer y swyddogaethau o dan Adran 7B o'r Deddf Safonau Gofal. Mae hefyd ganddynt y pŵer i adolygu neu monitro os yw'r trefniadau cyrff cyhoeddus yn effeithiol o safbwynt diogel a hybu hawliau a lles plant. Mae modd iddynt roi cymorth i blant o dan amgylchiadau penodol gyda'r pŵer i archwilio achosion yng nghyswllt plant unigol hefyd o dan amgylchiadau penodol. Os oes mater sydd yn pryderu'r Comisiynydd sydd yn effeithio ar hawliau neu les plant, mae ganddynt y pŵer i gyflwyno'r pryderai i Lywodraeth Cymru.

Er bod gan y Comisiynydd lawer o bwerau, nid oes ganddynt y pŵer i weithredu o fewn llawer o amgylchiadau. Un amgylchiad penodol ni allent weithio o dan yw pan mae cyswllt neu achosion teuluol a hefyd ni allent ymchwilio i unrhyw fater os yw hi'n destun achos cyfreithiol. Mae materion sydd heb eu datganoli i'r senedd methu cael ei rheoli gan y Comisiynydd.

Mae'r Comisiynydd Plant Cymru Sally Holland wedi creu dogfen o'r enw Dim Drws Anghywir: dod a gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant. Dywedodd Sally Holland bod pawb yng Nghymru yn gyfrifol am ofal plant a dylai pawb eisiau y beth mae rhieni dda eisiau i'w blant. Yn y dogfen mae yna lawer o negeseuon allweddol. Un neges yw bod y pandemig Covid-19 wedi cael effaith mawr ar ieuchyd meddwl a gofal cymdeithasol blant ar draws y byd sydd yn galluogi bod plant a phobl ifanc yn fwy agored i niwed. Yng Nghymru, mae gormod o blant yn aros rhy hir am driniaeth neu cefnogaeth am ieuchyd meddwl, llesiant emosiynol a materion ymddygiad. Mae'r dogfen yn disgrifio hyn fel bod y plant yn 'bownsio' o gwmpas o un gwasanaeth i wasanaeth arall a felly does dim cytuniad am bwy sydd yn gyfrifol am eu gofal. Dylai gwasanaethau helpu ar sail angen a nid diagnosis.

Nod y dogfen yma yw i wasanaethau a pobl cyffredinol symud tuag at y ddull 'dim drws anghywir' wrth ymateb i anghenion plant a phobl ifanc. Golygir hyn bod trwy siarad i un gwasanaeth, ni ddylent cael ei ddweud ei bod yn curo y drws anghywir a dylai'r gwasanaeth hynny helpu'r unigolyn sydd yn ceisio cael cymorth. Mae plant yng Nghymru sydd gyda anableddau dysgu dal yn wynebu profiad cymhleth a straenus wrth symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolyn.

Mae'r adroddiad hyn yn ffocysu ar ddau grŵp penodol o blant a phobl ifanc, y rhai sydd gyda anghenion llesiant emosiynol neu ieuchyd meddwl cymhleth, a'r pontio i wasanaethau oedolion ar gyfer pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu. Mae llawer o sefyllfaoedd ble gwelir teuluoedd lle mae diffyg gwasanaethau integredig o ran llesiant emosiynol a ieuchyd meddwl, ac adroddwyd i'r tîm ymchwiliadau a chyingor y comisiynydd. Mae gweithwyr proffesiynol, plant a teuluoedd yn dweud eu bod y plant neu pobl ifanc yn cael eu 'bownsio' o amgylch y system neu yn cael eu ddweud bod rhaid iddynt aros amser hir am gefnogaeth, neu yn clywed nad dyna'r bobl iawn i'w helpu. Mae yna rhai achosion eithafol lle mae plant neu pobl ifanc yng nghanol dwy stôl o wasanaethau lle gallent bod o berygl i'w hunain neu i blant eraill. Weithiau gallai'r lleoliad bod yn amhriodol neu yn anaddas i'w anghenion sydd yn golygu bod perygl o ddioddef mwy o drawma.

Er bod cael diagnosis weithiau yn rhyddhad aruthrol i deuluoedd ac yn aml yn gallu golygu mynediad at y gofal neu cefnogaeth angenrheidiol, mae hefyd yn gallu cyfyngu ar y ddarpariaeth sydd ar gael i blentyn gan eu bod bellach o dan ieuchyd neu ofal cymdeithasol. Mae'r adroddiad yn dweud bod angen dull gweithredu sydd yn blentyn-ganolog a dull lle mae anghenion ac amgylchiadau'r plentyn yw'r brif ffocws.

Mae'r adroddiad yma yn gysylltiedig gyda erthyglau y UNCRC lle mae erthyglau 1 a 2, 3, 4, 9, 12, 13, 16, 19, 20, 23, 24, 25, 27, 37, 39 ac erthygl 42 yn bwysig ar gyfer y prosiect yma. Mae byrddau partneriaeth rhanbarthol yn blaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas gyda llawer o bethau eraill gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a phlant gyda anghenion cymhleth. Mae pwysigrwydd partneriaethau rhanbarthol i blant a phobl ifanc wedi cael ei gydnabod gan rhaglen sydd wedi ymddangos yn diweddar ar gyfer ieuchyd meddwl plant a phobl ifanc.

Mae yna wedi bod canfyddiadau ac un canfyddiad oedd bod rhai plant ddim yn hyderus ble i fynd i gael cefnogaeth ond hefyd bod rhaid i anghenion y blant cael ei cwrdd gyda ddim gymaint o ffocws ar gael diagnosis. Er bod dylai plant cael ei dderbyn ac yn cael yr hawl i gefnogaeth, mae llawer o weithwyr proffesiynol ddim wedi derbyn hyfforddiant am rai bethau. Yn ogystal a hyn, nid oes digon o amser neu arian sydd yn meddwl bod plant ddim yn derbyn y gofal cywir neu angenrheidiol sydd yn gallu arwain at gam-ddiagnosis.

Yn dilyn marwolaeth Dylan Seabridge ym mis Rhagfyr, 2011 mae cwestiynau wedi codi os yw mecanweithiau diogelu presennol yn ddigonol i blant sydd yn cael ei addysgu gartref. Prif canfyddiadau'r ymchwiliad hyn oedd bod 2-3,000 o blant yng Nghymru sydd yn cael ei addysgu gartref er bod hyn yn cynyddu gyda niferoedd yn dybli dros y 6 mlynedd diwethaf. Mae yna aml-ddiwylliant o fewn y blant sydd yn cael ei addysgu gartref ac mae yna llawer o resymau dros dewis addysg gartref. Un rheswm yw oherwydd dyna sut addysgodd eu rhieni felly nid ydynt yn adnabod unrhyw ffordd arall o addysgu. Rheswm arall yw oherwydd bwllo o fewn ysgol neu anghenion ychwanegol. Canfyddiad arall pwysig oedd plant sydd yn cael addysg gartref yn cael llai o fynediad i wasanaethau proffesiynol sydd yn cael ei ddarparu trwy addysg ysgol.

Mae yna tystiolaeth sydd yn dweud bod rhai plant sydd yn cael addysg gartref yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod er bod hyn ddim yn llai cyffredin na'r poblogaeth cyffredinol. Os mae plentyn yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, mae mynediad i'r plentyn yn galetach os yw'r rhieni/gwarchodwr yn dymuno cyfyngu mynediad i'r plentyn. Mae addysg gartref yn gadael rhai plant mewn perygl gan bod rhai rhieni yn defnyddio'r addysg gartref fel ffordd o reoli a gyfyngu cysylltiad y plentyn.

Er gallai addysg gartref bod yn ffactor negyddol, mae yna rhai plant sydd yn llwyddo trwy addysg gartref gan fod rhai rhieni yn credu mewn dull sydd yn canolbwyntio ar beth mae'r plentyn eisiau yn lle trwy dilyn rhestr wirio fel mewn ysgol.

Yn dilyn hyn roedd argymhellion ar gyfer addysg gartref lle mae awdurdodau lleol angen cefnogi'r addysg a lles y plant sydd yn derbyn addysg gartref. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod arian yn cael ei ddarparu fesul disgybl fel y plant sydd yn cael eu haddysgu yn yr ysgol.

I grynhoi, hawliau plant oedd prif ffocws y Comisiynwyr Cymru er mwyn sicrhau bod lles a bywydau plant o fewn y gofal cywir. Trwy penodi Comisiynydd Plant, maent wedi sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael cyfleoedd i fynegi eu theimladau a'u meddyliau.

Adran 3

Mae llawer o ffactorau cymdeithasegol sydd yn digwydd yn y cymuned ar draws y byd i gyd sydd yn cael effaith mawr ar fywydau plant a phobl ifanc. Mae rhain yn amrywio o ffactorau amgylcheddol i broblemau iechyd neu anghenion dysgu ychwanegol.

Y ffactor byddaf yn trafod yn yr adran yma yw trosedd. Yn ôl y Geiriadur Cambridge (dim dyddiad), trosedd yw ymddygiad sydd yn erbyn y gyfraith neu yn gallu meddwl rhywbeth sydd yn anghywir. Mae'r Prifysgol Agored (dim dyddiad) yn cytuno gyda'r Geiriadur Cambridge, (dim dyddiad) er ei fod nhw hefyd yn dweud bod dim diffiniad cywir ar gyfer trosedd. Mae'r Office for National Statistics (2023) wedi gwneud Census ar gyfer lefelau trosedd yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn dangos bod awgrymiad bod 9.1 miliwn o oedolion dros 16 wedi cael profiad o drosedd rhwng 2021-2022. Mae hyn wedi lleihau tua 10% o'r blwyddyn 2020. Mae hyn wedi lleihau oherwydd llai o droseddi lladrad yn digwydd. Ers y 1990au mae wedi bod gostyngiad mawr mewn troseddi sydd ac eithrio lladrad a chamddefnyddio cyfrifiadur er bod mwy o lladrad a chamddefnyddio cyfrifiadur yn digwydd ar hyn o bryd.

Mae yna llawer o resymau y pam mae pobl yn gwneud trosedd ond y prif rheswm yw oherwydd ffactorau cymdeithasegol eraill fel tlodi, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau a hefyd esgeulustod (BBC, 2023). Mae'r BBC (2023) hefyd yn dweud bod 2 grŵp o bobl sydd yn gwneud trosedd sef y rhai unigolydd a'r rhai 'collectivist'. Mae'r rhai unigolydd yn dewis i wneud trosedd ac os ydynt yn cael ei ddal, mi fyddent yn dioddef y canlyniadau tra bod y rhai 'collectivist' yn meddwl os oedd y canlyniadau yn llymach, ni fydd gymaint o drosedd yn digwydd. Mae 'collectivists' hefyd yn meddwl nad yw'r gymdeithas yn deg oherwydd mae rhai grwpiau o bobl yn fwy o risg o wneud trosedd oherwydd eu teuluoedd neu ffrindiau (BBC, 2023).

Mae natur vs meithrin hefyd yn gallu dylanwadu pam mae pobl yn gwneud trosedd. Yn ôl y BBC, (2023) nad yw'r ymennydd wedi'i ddatblygu yn llawn tan bod rhywun yn 25 oed felly gall hyn esbonio pam mae pobl ifanc yn gwneud pethau heb meddwl am y ganlyniadau. Mae hyn oherwydd bod darn yr ymennydd sydd yn creu penderfyniadau yw'r olaf i ddatblygu. Mae yna hefyd rhai tystiolaeth bod natur pobl yn uwch mewn rhai sydd yn golygu y byddent yn fwy tebygol o wneud trosedd. Er bod gan natur effaith ar drosedd, mae meithrin plant neu phobl ifanc hefyd yn effeithio trosedd. Gall niferoedd trosedd codi oherwydd yr amgylchedd neu'r pobl yn y gymuned y mae plant neu pobl ifanc yn byw ynddo. Mae'r BBC (2023) yn dweud bod lleoliadau sydd yn dioddef yn dangos cyfraddau uwch o drosedd i gymharu a lleoliadau sydd ddim yn dioddef.

Mae'r Arolwg Trosedd a Chyfiawnder yr Alban (2019/2020) yn dweud bod 18% o oedolion rhwng 16-24 wedi cael profiad o drosedd er bod hyn yn edrych yn wahanol i bob unigolyn tra bod 14% o oedolion 25-44 oed wedi cael profiad o drosedd. Rhwng 2019 a 2020, doedd dim gwahaniaeth rhwng dynion a fenywod yn cael profiad o drosedd er bod dynion yn fwy tebygol o brofi trosedd treisgar.

Mae plant sydd yn gweld neu yn cael profiad o drosedd yn ymateb mewn gwahanol ffyrdd. Mae rhai plant yn ymddangos yn ofnus tra bod rhai yn cael problemau cysgu neu bwyta. Mae rhai plant yn dewis i aros adref gan ei bod yn cael problemau canolbwytio yn yr ysgol a gall unrhyw newid bach yn ei rheolwaith gwneud niwed l'r plentyn. Gall rhai plant sydd yn cael profiad o drosedd ymateb mewn ffordd treisgar tra bod plant arall yn gallu mynd yn dawel. Mae'r plant sydd yn ymateb yn y ffyrdd uchod yn cael risg o broblemau ymddygiad neu cymdeithasol. Gallent tyfu i fyny i gael problemau cyffuriau neu alcohol ac yn fwy tebygol o wneud trosedd fel oedolion

(healthy children, dim dyddiad). Pan mae plant yn ymddwyn mewn ffordd treisgar, maent yn dechrau'r cylchred treisgar sydd yn gallu cael ei basio lawr i genedlaethau dyfodol.

Government, (2022), yn dweud os mae rhywun wedi bod yn dioddefwr o drosedd mae yna gwasanaeth ar gael i helpu o'r enw 'Victim Support' a mae hyn ar gael ar rhif ffon, sgwrs fyw neu ar ei wefan. Mae'n gwasanaeth am ddim ac yn gyfrinachol sydd ar gael pob dydd o'r flwyddyn ar unrhyw amser. Mae'n gwasanaeth sydd yn galluogi pobl sydd wedi dioddef neu gweld trosedd i siarad i bobl proffesiynol sydd yna i helpu.

Mae yna hefyd gwasanaeth ar gael i bobl sydd wedi bod yn dioddefwr o drosedd rhywiol. Mae hi'n rhan o'r GIG a'i enw yw SARCs (Sexual Assaults Referral Centres). Nod y gwasanaeth hyn yw i ddarparu lleoliad diogel i bobl sydd wedi dioddef hyn trwy darparu cefnogaeth emosiynol, meddyginiaeth ac ymarferol. Eto, mae hyn am ddim ac ar gael pob dydd ar unrhyw adeg. Gall pobl ffeindio'r uned agosaf iddynt trwy mynd ar wefan y GIG (Government, 2022). Weithiau mae dynion yn ffeindio yn anodd i siarad a phobl am fod yn dioddefwr camdriniaeth rhywiol felly mae yna gwasanaeth cyfrinachol sydd ar gael i ddynion. Nod y gwasanaeth hyn yw i gefnogi dynion trwy'r sefyllfa trwy cefnogi'n emosiynol. Mae hyn eto ar gael pob dydd trwy rhif ffon, sgwrs fyw neu e-bost.

Tra bod llawer o wasanaethau ar gael i bobl sydd yn dioddefwr o drosedd, mae yna gwasanaethau ar gael i gefnogi'r pobl sydd ar fin gwneud trosedd neu ar fin brifo rhywun neu ei hunain. Mae gwasanaeth o'r enw 'Stop it now' ar gael trwy rhif ffon i geisio stopio'ch hunain neu rhywun arall gwneud trosedd (Government, 2022).

Mae yn llawer o gefnogaeth ar gael ar gyfer trosedd er gallai cyllid effeithio'r gwasanaethau. Os nad oes digon o arian, ni fydd modd l'r gwasanaethau rhedeg yn iawn. Mae hefyd angen hyfforddiant ar yr ymarferwyr felly os nad oes digon o arian, nid oes modd l'r ymarferwyr mynychu hyfforddiant.

Nad yw trosedd yn effeithio'r unigolion yn unig, mae hefyd yn effeithio'r cymuned a'r cymdeithas. Gall pobl fod yn ofn i adael y tŷ neu yn gallu fod yn ofnus tu fewn l'r tŷ. Mae lefelau trosedd hefyd yn cael effaith ar y cymuned trwy prisoedd tai yn cael ei effeithio gyda premiymau yswiriant hefyd yn codi. Bydd perchnogion tai hefyd yn ffeindio hi'n anodd i werthu tai (BBC, 2023).

Mae busnesau hefyd yn cael ei effeithio gan trosedd. Gall hyn bod oherwydd llai o incwm neu oherwydd lladrad neu oherwydd bod llai o bobl yn siopa yn y busnesau lleol oherwydd ofn. Ni fydd busnesau newydd eisiau dechrau yn yr ardal oherwydd lefelau trosedd hefyd (BBC, 2023).

Rhestr cyfeirnodau

BBC (2019) *Well trained nursery staff 'key to good care'* Available at: [Well trained nursery staff 'key to good care' - BBC News](#) [Accessed: 13eg o Chwefror, 2023].

BBC (2023) *Crime* Available at: [The consequences of crime - Crime - National 5 Modern Studies Revision - BBC Bitesize](#) [Accessed: 5ed o Fawrth, 2023].

BBC (2023) *impact of crime on communities and businesses* Available at: [Impact of crime on communities and society - Social and economic impact of crime on wider society - Higher Modern Studies Revision - BBC Bitesize](#) [Accessed: 5ed o Fawrth, 2023].

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Dim Drws Anghywir: Dod a gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant.*

Cooperrider, D. (2022) *Leadership as a Catalyst for Change*. Available at: [Leadership as a Catalyst for Change - Vunela](#) (Accessed: 4ydd o Fawrth, 2023).

Croner-i (2020) *Professional Development in the Early Years Workforce*. Available at: [Professional development in the early years workforce | Croner-i \(croneri.co.uk\)](#) [Accessed: 13eg o Chwefror 2023].

BBC (Dim dyddiad) *nature of social inequality* Available at: [Poverty - Nature of social inequality - National 5 Modern Studies Revision - BBC Bitesize](#) [Accessed: 13eg o Chwefror, 2023].

Department for Education (2018) *Early Career CPD: Exploratory Research*. Available at: [Early career CPD: exploratory research \(publishing.service.gov.uk\)](#) (Accessed: 13 Chwefror 2023).

Flying start Cardiff (dim dyddiad) *Welcome to Cardiff Flying Start* Available at: [Welcome to Cardiff Flying Start - Flying Start Cardiff](#) [Accessed: 13eg o Chwefror, 2023].

Grantham Caston, M. and Fontcuberta DiCarlo, C. (2021) Leadership Styles in Childcare Directors. *Early Childhood Education Journal*. Available at: <https://doi.org/10.1007/s10643-021-01282-2>

Government (2022) *Victim and Witness services* Available at: [Victim and witness services - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/services/victim-and-witness-services) [Accessed: 5ed o Fawrth, 2023].

Government (2023) *family hubs and start for life programmes* Available at: [Family Hubs and Start for Life programme - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/services/family-hubs-and-start-for-life-programmes) [Accessed: 13eg o Chwefror, 2023].

Hadfield, M. (2015) *Practice leadership in the early years : becoming, being and developing as a leader* . Maidenhead, England ; New York, New York :; Maidenhead, England ; New York, New York :, Open University Press

Haira E. Gandolfi & Martin Mills (2022): Teachers for social justice: exploring the lives and work of teachers committed to social justice in education, Oxford Review of Education, DOI: 10.1080/03054985.2022.2105314

Healthy Children (dim dyddiad) *Childhood exposure to violence* Available at: [Childhood Exposure to Violence - HealthyChildren.org](https://www.healthychildren.org/healthy-living/child-development/childhood-exposure-to-violence) [Accessed: 5ed o Fawrth, 2023].

Julie Nicholson, Katie Kuhl, Helen Maniates, Betty Lin & Sara Bonetti (2020) A review of the literature on leadership in early childhood: examining epistemological foundations and considerations of social justice, *Early Child Development and Care*, 190:2, 91-122, DOI: 10.1080/03004430.2018.1455036

LMS Hero (dim dyddiad) *Sociological factors: meaning, categories, components and more* Available at: [Sociological Factors: Meaning, Categories, Components, & More - LMS Hero](https://www.lmshero.com/sociological-factors-meaning-categories-components-and-more) [Accessed: 11eg o Chwefror, 2023].

McDowall Clark, R. (2012) “I’ve never thought of myself as a leader but...”: The Early Years Professional and catalytic leadership’, *European Early Childhood Education Research Journal*, 20(3), pp. 391-401. Available at: [Full article: ‘I’ve never thought of myself as a leader but...’: the Early Years Professional and catalytic leadership \(tandfonline.com\)](https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/14639225.2012.701111) (Accessed: 4 March 2022).

McDowall Clark, R. and Murray, J. (2012) *Reconceptualising Leadership in the Early Years*. Berkshire: Open University Press.

Reed, M. and Canning, N. (2012) *Implementing Quality Improvement and Change in the Early Years*. London: Sage.

Toomer, J. et al. (2018) *The Catalyst Effect: 12 Skills and Behaviours to Boost your Impact and Elevate Team Performance*. Bingley: Emerald Publishing.

UNICEF (Dim dyddiad) *The Convention on the Rights of the Child: The Children's Version* Available at: [The Convention on the Rights of the Child: The children's version | UNICEF](#) [Accessed: 13eg o Chwefror, 2023).

Whalley, M. et al. (2019) *Democratising Leadership in the Early Years: A systematic approach*. Oxon: Routledge.